| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 17eg 2021 |
| **TEITL** | Dynodiad Awyr Dywyll |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau a cheisio cefnogaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Cefnogi cais am statws Parc Awyr Dywyll |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Ers peth amser mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio tuag at geisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer ardal AHNE Llŷn.

1.2 Y cam cychwynnol oedd comisiynnu Arolwg Awyr Dywyll er asesu pa mor dywyll oedd awyr y nos yn yr ardal a faint o lygredd goleuadau oedd yn bodoli. Dangosodd yr arolwg yma, a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru, fod awyr y nos yn dywyll iawn mewn rhannau o Lŷn ac mai ychydig iawn o lygredd oedd yn bodoli.

1.3 Yn dilyn cyflwyniad fe drafodwyd y posibilrwydd o ymgeisio am ddynodiad awyr dywyll i AHNE Llŷn yn y cyfarfod yn mis Tachwedd 2020 ond bryd hynny nid oedd digon o aelodau yn bresennol i wneud penderfyniad.

## 2.0 PROSIECT "NOS"

2.1 Mae Prosiect "Nos" wedi ei sefydlu ar y cyd gyda AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Pharc Cenedlaethol Eryri (sydd eisioes wedi derbyn dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll). Yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid penodwyd Swyddog Prosiect Awyr Dywyll – Dani Robertson.

2.2 Bwriad prosiect Nos yw cydweithio i gynnal, gwarchod a hyrwyddo awyr dywyll y nos yn yr ardaloedd a gweithio ar statws rhyngwladol Awyr Dywyll i'r ardaloedd. Fel rhan o'r prosiect bydd monitro o'r awyr dywyll, codi ymwybyddiaeth am lygredd goleuadau a hybu arfer da a

chynnal digwyddiadau gwylio sêr. **Rhaid pwysleisio hefyd nad oes bwriad diffodd unrhyw oleuadau stryd fel rhan o'r prosiect.**

2.3 Eisioes mae'r Swyddog Prosiect wedi rhoi cyflwyniad i'r Cydbwyllgor ar y buddion o warchod yr awyr dywyll – yn amgylcheddol, economaidd ac yn gymdeithasol. Hefyd ar gais y Cydbwyllgor rhoddwyd gwahoddiad i bob Cyngor Cymuned/ Tref yn yr AHNE wylio'r cyflwyniad a holi cwestiynnau.Ni waneth llawer o gynghorau fanteisio ar y cyfle hwn ond derbyniwyd rhai negeseuon o gefnogaeth yn dilyn y cyflwyniad.

## 3.0 CAIS AM STATWS AWYR DYWYLL I AHNE LLŸN

3.1 Yr International Dark Sky Association (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau yn bosibl – yn cynnwys statws Noddfa, Cymuned, Parc a Gwarchodfa. Mae staff yr Uned wedi cael cyfarfod ar lein gyda staff yr IDA ac maent yn gefnogol iawn i'r bwriad o wneud cais am statws Awyr Dywyll ar gyfer yr ardal hon.

3.2 Yn wreiddiol roedd Uned AHNE Llŷn yn bwriadu ymgeisio am statws Cymuned ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ganlyniadau monitro a thrafodaeth gyda'r IDA rydym o'r farn y byddai statws Parc Awyr Dywyll yn adlewyrchiad gwell o safon yr awyr dywyll yn yr ardal yn ogystal â rhoi mwy o statws i'r ardal.

3.3 Fel rhan o'r broses ymgeisio am y Statws Awyr Dywyll bydd angen paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a chreu rhaglen o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Cefnogi cais i'r IDA am ddynodiad Parc Awyr Dywyll ar gyfer AHNE Llŷn.